**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR CRAFFU | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | **2 Hydref 2012** |
| TEITL | **Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12** |
| ARWEINYDD PORTFFOLIO | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1.0 CEFNDIR

1.1. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod yn atebol amdano. Rydym yn cyfarch hyn drwy'r Cynllun Strategol a thrwy ein hadroddiad blynyddol ar berfformiad a gyflwynir yma.

1.2 Mae'r broses o fod yn atebol dros berfformiad yn digwydd mewn dau gam:

Cam 1 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau ar gyfer gwella, gan gynnwys cyfres o amcanion gwella (ein Cynllun Strategol).

Cam 2 - Yr angen i awdurdodau gyhoeddi asesiad o berfformiad yng nghyswllt eu cynlluniau a'u hamcanion gwella (Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12).

1.3 Gofynnir i awdurdodau gyhoeddi asesiad o'u perfformiad o fewn blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref y flwyddyn ganlynol.

## 2.0 Y BROSES

2.1 Mae'r broses o ddod ag adroddiad perfformiad Gwynedd at ei gilydd yn digwydd drwy gydol y flwyddyn. Mae gwelliannau a dangosyddion perfformiad wedi bod yn cael eu monitro yn rheolaidd gan y Byrddau Rhaglen sydd wedi bod yn canolbwyntio ar fesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau yn ymhob maes. Y canlyniadau ymhob maes yw 'amcanion gwella' Gwynedd.

2.2 Yn ychwanegol at hyn, bu Arweinyddion Portffolio y cyn Gyngor, a'u Penaethiaid Adran yn monitro cyrhaeddiad yn erbyn eu mesuryddion perfformiad yn chwarterol.

2.3 Cefnogwyd y gwaith hyn gan y Pennaeth Strategol a Gwella a'i swyddogion, drwy sicrhau ansawdd a herio.

2.4 Bu pwyllgorau craffu'r Cyngor yn craffu cyrhaeddiad yn erbyn y cynlluniau gwella a'r mesuryddion yn eu meysydd hwy ar ôl chwe mis cyntaf 2011/12. Gwnaed gwaith manwl pellach gan y Gweithgor Craffu Bwrdd Rhaglen Gofal y Prif Bwyllgor Craffu yn y meysydd penodol hynny. Rhoddwyd gwahoddiad i'r Arweinyddion Portffolio a'r Penaethiaid Adran perthnasol i gyfarfodydd y Gweithgorau hynny hynny i fod yn atebol am eu perfformiad.

2.5 Sefydlwyd hefyd Grŵp Tasg Gwella Perfformiad gan Grŵp Arweinyddiaeth (a elwir bellach yn Tîm Rheoli Corfforaethol) y Cyngor, a oedd yn canolbwyntio ar wella perfformiad mewn meysydd a oedd wedi bod yn tan berfformio o'u cymharu â gweddill Cymru yn ystod 2010/11. Drwy weithio gyda'r Penaethiaid Adran, canolbwyntiodd y Grŵp Tasg ar ddadansoddi'r rhesymau dros y tan berfformiad a datblygu cynlluniau ar gyfer gwella.

2.6 Cafodd tystiolaeth a chasgliadau Adroddiad Perfformiad 2011/12 eu herio yn llawn gan y Grŵp Arweinyddiaeth y Cyngor ar ddiwedd 2011/12, gyda'u hargymhellion yn trosglwyddo i gael eu gweithredu.

2.7 Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2011/12 i'r Cabinet i'w ystyried ar 26 Medi 2012, ac fe'i gyflwynir i'r Cyngor ar 4 Hydref 2012.

## 3.0 GWEITHREDIAD

3.1 Cyflwynir yr adroddiad perfformiad i'r cyfarfod hwn er mwyn craffu ei ansawdd. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu bwyso a mesur a yw'r ddogfen yn rhoi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

3.2 Disgwylir i'r adroddiad perfformiad hwn hysbysu rhaglen waith y pwyllgorau craffu i'r dyfodol.

## 4.0 ARGYMHELLION

4.1 Fod y Pwyllgor Craffu yn craffu ansawdd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12 ac yn bwyso a mesur a yw'n rhoi darlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor.

4.2 Fod unrhyw newidiadau pellach sydd angen eu gwneud i'r adroddiad perfformiad i'w gwneud gyda chymeradwyaeth Arweinydd y Cyngor mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol.